Rhesymau cyffredin dros wrthod cyfrifon

Mae cyfradd uchel o gyfrifon blynyddol yn cael eu gwrthod ar hyn o bryd - 11.1% eleni hyd yn hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfrifon yn cael eu gwrthod oherwydd gwallau neu hepgoriadau syml, ond gall effaith hyn ar gwmni neu PAC fod yn ddifrifol. Os cyflwynir y cyfrifon yn agos at y dyddiad ffeilio a'u bod yn cael eu gwrthod wedyn, **cyhoeddir cosb ffeilio hwyr yn awtomatig os na chaiff y cyfrifon eu hailgyflwyno erbyn y dyddiad ffeilio.**

Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros wrthod cyfrifon blynyddol rhwng Ionawr a Mehefin 2010. Er mwyn sicrhau nad yw'ch cyfrifon yn cael eu gwrthod, ystyriwch y wybodaeth ganlynol wrth eu paratoi. Yn well byth, cewch gyflwyno cyfrifon cryno sydd wedi eu heithrio rhag archwilio a chyfrifon cwmnïau segur ar-lein gan ddefnyddio ein gwasanaeth Webfiling. Hwn yw'r dull ffeilio mwyaf diogel. Mae Webfiling yn cynnwys teclyn gwirio sy'n atal y rhan fwyaf o'r rhesymau dros wrthod a restrir isod rhag digwydd. Mae'n anfon negeseuon e-bost awtomatig i gydnabod bod eich cyfrifon wedi dod i law a'u bod wedi cael eu derbyn. (Sylwer: dim ond o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 y gall cwmnïau Gogledd Iwerddon ffeilio dogfennau).

Rheswm dros wrthod	**Nifer y gwrthodiadau**
Datganiadau Anghywir yn y Dogfennau	33349
Dyblygu dyddiadau cyflwyno	17329
Diffyg enw'r llofnodwr ar y Fantolen	12106
Datganiadau Eithrio rhag Archwilio Deddf 2006 ar goll neu'n anghywir	10277
Y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg/dyddiad cyflwyno ar goll neu'n anghywir	10026
Diffyg llofnod ar y fantolen	7755

Datganiadau Anghywir yn y Cyfrifon
Y prif reswm dros wrthod cyfrifon yw bod y cwmni wedi defnyddio'r datganiadau anghywir.

- Rhaid i gyfrifon a chanddynt gyfnod cyfrifo a ddechreuodd cyn 6 Ebrill 2008 (neu 1 Hydref 2008 yn achos PACau) gynnwys datganiadau priodol Deddf 1985 (neu ddatganiadau priodol Gorchymyn Cwmnïau Gogledd Iwerddon 1986 yn achos cwmnïau a PACau Gogledd Iwerddon).
- Rhaid i gyfrifon a chanddynt gyfnod a ddechreuodd ar 6 Ebrill 2008 neu ers hynny (neu 1 Hydref 2008 yn achos PACau), gynnwys y datganiadau perthnasol a bennir ar dudalen 3 ar gyfer cwmnïau a thudalen 5 ar gyfer Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig.

Dyblygu dyddiadau cyflwyn
Rydyn ni'n cael nifer fawr o g yddiad cyflwyno â set o gyfrifon sydd wedi cael ei ffei iff unrhyw gyfrifon dyblyg sy'n dod i law eu gwrthod. Rhaid marcio unrhyw gyfrifon i'w diwygio/diwygiedig sy'n dod i law â'r geiriau 'i'w diwygio' neu 'diwygiedig' fel y bo'n briodol. Cewch wirio eich 'dyddiad cyflwyno cyfrifeg' a 'dyddiad cyflwyno'ch cyfrifon nesaf' gan ddefnyddio ein gwasanaeth Webcheck.

Diffyg enw llofnodwr neu lofnod ar y Fantolen
Rhaid i gyfarwyddwr, neu aelod penodedig o PAC, lofnodi gwaelod y fantolen. Rhaid i bob mantolen ac adroddiad y Cyfarwyddwr nodi enw'r person a lofnododd ar ran y bwrdd hefyd.

Y Dyddiad Cyfeirnod Cyfrifeg/Dyddiad Cyflwyno ar goll neu'n anghywir
Mae cyfran sylweddol o'r gwrthodiadau yn codi o achosion pan fo'r dyddiad cyflwyno ar goll neu pan nad yw'r dyddiad yn cyd-fynd â'r dyddiad cyfeirnod cyfrifeg. Os ydych chi am baratoi cyfrifon â dyddiad cyflwyno dros 7 diwrnod y naill ochr neu'r llall i'ch dyddiad cyfeirnod cyfrifeg, rhaid i chi ffeilio ffurflen AA01, neu LL AA02 ar gyfer PAC, gyda'ch cyfrifon cyn y dyddiad ffeilio er mwyn newid eich cyfnod cyfeirnod cyfrifeg.

Sylwer
Bwriad y wybodaeth uchod yw tynnu sylw at y rhesymau mwyaf cyffredin dros wrthod cyfrifon. Dylech ddarllen y canllawiau perthnasol ar ein gwefan hefyd.

Datganiadau eithrio

Datganiadau eithrio rhag archwilio ar gyfer cyfrifon cwmnïau

Rhaid i gyfrifon a chanddynt gyfnod cyfrifeg a ddechreuodd ar **6 Ebrill 2008** neu ers hynny gynnwys y datganiadau canlynol fel y bo'n briodol:

Cwmnïau Bach
Rhaid i gwmni sy'n cyflwyno cyfrifon bach gynnwys y datganiad y canlynol ar y fantolen:

> "Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau bach."

Gall cwmnïau bach nad ydynt yn cyflwyno cyfrifon cryno ddewis peidio â chynnwys copi o adroddiad y Cyfarwyddwyr a/neu gopi o'r cyfrif elw a cholled. Yn yr achosion hynny, rhaid i'r fantolen gynnwys y datganiad canlynol hefyd:

> "Cyflwynwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau bach."

Cwmnïau Bach sydd wedi eu Heithrio rhag Archwilio
Rhaid i gwmni sy'n hawlio Eithriad Llwyr rhag Archwilio gynnwys y datganiadau canlynol ar y fantolen:

> "Mae'r cwmni wedi ei eithrio rhag y gofynion o ran paratoi cyfrifon wedi eu harchwilio o dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006.
>
> Nid yw'r aelodau wedi mynnu bod y cwmni'n sicrhau archwiliad o'i gyfrifon ar gyfer y flwyddyn dan sylw o dan adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006.
>
> Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg a pharatoi cyfrifon.
>
> Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau bach."

Cwmni Segur sydd wedi ei Eithrio rhag Archwilio
Rhaid i gwmni segur sy'n hawlio eithriad llwyr rhag archwilio gynnwys y datganiadau canlynol ar y fantolen:

> "Mae'r cwmni wedi ei eithrio rhag y gofynion o ran paratoi cyfrifon wedi eu harchwilio o dan adran 480 o Ddeddf Cwmnïau 2006.
>
> Nid yw'r aelodau wedi mynnu bod y cwmni'n sicrhau archwiliad o'i gyfrifon ar gyfer y flwyddyn dan sylw o dan adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006.
>
> Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg a pharatoi cyfrifon."

Cwmni Maint Canolig
Rhaid i gwmni sy'n cyflwyno cyfrifon Canolig ddangos y datganiadau canlynol ar y fantolen:

> "Paratowyd y cyfrifon yn unol â darpariaethau arbennig y Ddeddf Cwmnïau mewn perthynas â chwmnïau o faint canolig, fel y'u pennir yn adran 445(3) o Ddeddf Cwmnïau 2006."

Datganiadau Eithrio rhag Archwilio ar gyfer cyfrifon Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig

Rhaid i gyfrifon a chanddynt gyfnod cyfrifeg a ddechreuodd ar **1 Hydref 2008** neu ers hynny gynnwys y datganiadau canlynol fel y bo'n briodol:

PAC Bach
Rhaid i PAC sy'n cyflwyno cyfrifon bach gynnwys y datganiad canlynol ar y fantolen:

> "Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â darpariaethau arbennig Deddf Cwmnïau 2006 (fel y'u cymhwyswyd gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cyfrifon ac Archwilio) (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008) sy'n berthnasol i PACau bach."

Gall PACau bach nad ydynt yn cyflwyno cyfrifon cryno ddewis peidio â chynnwys copi o'r cyfrif elw a cholled. Yn yr achosion hynny, rhaid i'r fantolen gynnwys y datganiad canlynol hefyd:

> "Cyflwynwyd y cyfrifon hyn yn unol â darpariaethau arbennig Deddf Cwmnïau 2006 (fel y'u cymhwyswyd gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cyfrifon ac Archwilio) (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008) sy'n berthnasol i PACau bach."

Datganiadau Eithrio rhag Archwilio ar gyfer PACau Bach
Rhaid i PAC sy'n hawlio eithriad llwyr rhag archwilio gynnwys y datganiadau canlynol ar y fantolen:

> "Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar ... roedd gan y Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig yr hawl i gael ei eithrio o dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y'i cymhwyswyd gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cyfrifon ac Archwilio) (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008).
>
> Mae'r aelodau yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg a pharatoi cyfrifon (fel y'u cymhwyswyd i Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig).
>
> Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â darpariaethau arbennig Deddf Cwmnïau 2006 (fel y'u cymhwyswyd gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cyfrifon ac Archwilio) (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008) sy'n berthnasol i PACau bach."

Datganiadau Eithrio rhag Archwilio PACau Segur

Rhaid i PAC segur sy'n hawlio eithriad llwyr rhag archwilio gynnwys y datganiadau canlynol ar y fantolen:

> "Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar ... roedd gan y Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig yr hawl i gael ei eithrio o dan adran 480 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y'i cymhwyswyd gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cyfrifon ac Archwilio) (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008).
>
> Mae'r aelodau yn cydnabod eu cyfrifoldeb am gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 (fel y'u cymhwyswyd i Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig) mewn perthynas â chofnodion cyfrifeg a pharatoi cyfrifon."

PAC Maint Canolig
Rhaid i PAC sy'n cyflwyno cyfrifon canolig ddatgan y canlynol ar y fantolen:

> "Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 (fel y'u cymhwyswyd gan Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cyfrifon ac Archwilio) (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008) sy'n berthnasol i PACau maint canolig."

(c) Hawlfraint y Goron 2010
Cyhoeddwyd gan Dŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ
Mae Tŷ'r Cwmnïau'n un o Asiantaethau Gweithredol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS)